

The background of the slide is a composite image. The top half shows a clear blue sky above a distant horizon line where several wind turbines are visible. The bottom half shows a dark, semi-transparent overlay containing the title text, with a landscape of rolling green hills and a dirt path visible underneath. The bottom-most section of the slide shows a close-up of a green, grassy hillside with a dirt path winding through it, and some dark, leafy branches in the foreground.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Ysgariad neu Ddiddymu Partneriaeth Sifil

Ebrill 2025

Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Beth yw Gorchymyn Rhannu Pensiwn?	3
Beth yw Gorchymyn Clustnodi Pensiwn?	3
Beth os y telir pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i chi eisoes?	3
Beth yw'r broses?	4
Rhestr o Daliadau 2025: Rhannu Pensiwn ar Ysgariad	5
Beth sy'n digwydd i'ch pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol unwaith mae eich ysgariad neu ddiddymiad wedi'i gwblhau?	6
Beth os ydych chi'n ailbriodi neu'n mynd i bartneriaeth sifil newydd?	6
Beth sy'n digwydd i gredyd pensiwn eich cyn bartner?	6
Pryd allwch chi ddisgwyl derbyn Gwerth sy'n Cyfateb i Arian Parod eich hawliau pensiwn? ..	7
Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?	7
Ymwadiad.....	7

Cyflwyniad

Os ydych yn ysgaru neu fod eich partneriaeth sifil yn cael ei ddiddymu fe all effeithio ar eich pensiwn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gofynnir i chi ddatgan eich cyllid a fydd yn cynnwys eich pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Bydd y Llys wedyn yn cymryd y pensiwn hwn i ystyriaeth wrth iddynt benderfynu ar unrhyw setliad i'ch cyn bartner.

Bydd angen i chi a'ch cyn bartner ddweud wrth y Llys beth yw gwerth unrhyw bensiynau allai fod gennych. Nid yw hyn yn cynnwys Pensiwn y Wladwriaeth. Gallwch wedyn gytuno sut y dylai unrhyw bensiynau gael eu rhannu a bydd y Llys yn cyhoeddi un ai Orchymyn Rhannu Pensiwn neu Orchymyn Clustnodi Pensiwn i gadarnhau'r setliad.

Beth yw Gorchymyn Rhannu Pensiwn?

Mae Gorchymyn Rhannu Pensiwn yn rhannu eich pensiwn ar yr adeg rydych yn ysgaru neu y caiff eich partneriaeth sifil ei ddiddymu, ac felly mae'n gwneud toriad clir. Mae eich cyn bartner yn derbyn 'credyd pensiwn': hynny yw cyfran o'r buddion pensiwn rydych wedi ei gronni.

Beth yw Gorchymyn Clustnodi Pensiwn?

Mae Gorchymyn Clustnodi yn talu rhan o'ch buddion i'ch cyn bartner ar yr adeg rydych yn dechrau derbyn eich pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fe all eich cyn bartner dderbyn un ai cyfandaliad neu ran o'ch incwm pensiwn rheolaidd. Bydd y taliad hwn wedyn yn dod i ben adeg eich marwolaeth neu os yw eich cyn bartner yn ailbiodi neu'n mynd i bartneriaeth sifil newydd.


Beth os y telir pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i chi eisoes?

Dim ond cyfran o'ch pensiwn blynyddol y bydd eich cyn bartner yn ei dderbyn. Ni fydd ganddynt y dewis o gyfandaliad di-dreth.

Beth yw'r broses?

Bydd angen gwybodaeth benodol arnoch ynglŷn â'ch buddion pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fel rhan o'r trafodion ar gyfer ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys amcangyfrifiad o Werth sy'n Cyfateb i Arian Parod eich pensiwn.

Mae'r siart canlynol yn dangos sut mae'r broses yn gweithio.



Bydd Cronfa Bensiynau Clwyd yn rhoi Gwerth sy'n Cyfateb i Arian Parod i chi o fewn 3 mis i'ch cais amdano, neu'n gynt os yw ar gyfer dyddiad yn y Llys. Os ydych eisoed wedi derbyn Gwerth sy'n Cyfateb i Arian Parod am ddim o fewn 12 mis o ddyddiad y cais, mae'n bosib y codir tâl arnoch am yr ail Werth sy'n Cyfateb i Arian Parod.

Bydd y Gorchymyn Rhannu Pensiwn neu Orchymyn Clustnodi yn nodi cyfran y pensiwn i'w rhannu neu ei glustnodi. Bydd Gorchymyn Rhannu Pensiwn hefyd yn dangos y dyddiad pan fydd yn weithredol.

Bydd angen i chi a'ch cyn bartner dalu'r ffi i Gronfa Bensiynau Clwyd er mwyn prosesu'r Gorchymyn.

Rhestr o Daliadau 2025: Rhannu Pensiwn ar Ysgariad

Eitem	Sylwadau	Cost
1	Mae'n ofynnol darparu GTCA o fewn 3 mis	Dim
2	Dyfnbrisiau GTCA ychwanegol Yn seiliedig ar ddyddiadau gwahanol	£134.93 + TAW
3	GTCA ar gyfer pensiwnwr. Asesu gwerth y pensiwn ac unrhyw fuddion wrth gefn	£134.93 + TAW
4	Derbyn gorchymyn rhannu pensiwn i dalu costau gweinyddol i sefydlu cofnod pensiwnwr	£914.79 + TAW
5	Gwrthwynebiadau i orchymyn gan y cynllun (dylai'r cyfrifoldeb fod ar y sawl a luniodd y Gorchymyn i sicrhau ei fod yn gywir cyn ei gyflwyno)	Cynllun i hysbysu'r aelod/cyfreithiwr y bydd y costau am ddelio â Gorchymynion anweithredol yn cael eu pasio ymlaen

Nodiadau

1. Ar gyfer eitemau 2, 3 a 4, caiff anfoneb ei hanfon.

2. Ar gyfer eitem 5, gellir talu yn y modd canlynol:

- yn llawn gan y naill barti
- rhan ohono ymlaen llaw gan y naill barti, gyda'r gweddill yn cael ei ddidynnu o'r GTCA a roddwyd i'r cyn-briod (yr aelod a gredydwyd) gan y Llys
- drwy ddidynnu'r ffi o unrhyw gyfran o gronfa cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol aelod y cynllun a roddwyd i'r cyn-briod

Dylai'r Llys ystyried ein bwriad i adennill y taliadau gan y priod wrth benderfynu ar y setliad ariannol cyffredinol ar ysgariad.

Byddwn yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau codi tâl a bennir mewn Gorchymyn Llys.

Mae'r taliadau'n destun adolygiad blynyddol yn unol â'r Mynegai Pris Defnyddwyr (MPD) bob mis Ebrill.

Beth sy'n digwydd i'ch pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol unwaith mae eich ysgariad neu ddiddymiad wedi'i gwblhau?

- Mae'n bosibl y dyfernir credyd pensiwn i'ch cyn bartner yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a fydd ar wahân i'ch pensiwn
- Ni fydd eich cyn bartner yn gymwys i dderbyn pensiwn partner sydd wedi goroesi os ydych yn marw o'u blaenau
- Bydd pensiynau plant yn parhau yn daladwy. Ni effeithir arnynt gan ysgariad na diddymu partneriaeth sifil
- Fel arfer bydd unrhyw grant untro i'w dalu yn dilyn eich marwolaeth yn cael ei dalu i'r buddiolwyr rydych wedi eu henwi ar eich ffurflen Mynegi Dymuniad, oni bai nad yw'r ffurflen yn gyfredol mwyach neu fod eich perthynas agosaf yn dadlau pwy ddylai'r buddiolwyr fod. Mae gan Gronfa Bensiynau Clwyd ddisgresiwn i benderfynu i bwy y dylid talu'r grant marwolaeth. **Fodd bynnag nodwch os yw'r Llys yn cyhoeddi Gorchymyn Clustnodi, fe all ddyfarnu y dylai ychydig o'r grant neu'r grant cyfan fynd i'ch cyn bartner os ydych yn marw o'u blaenau**
- Os ydych angen newid eich buddiolwyr grant marwolaeth, gallwch wneud hynny drwy fewngofnodi i'ch cyfrif [Hunanwasanaeth Aelodau](#) neu gallwch lawrlwytho ffurflen Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth o'r **dudalen ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan. Cysylltwch â ni os ydych angen i ffurflen bapur gael ei hanfon atoch chi yn y post

Beth os ydych chi'n ailbriodi neu'n mynd i bartneriaeth sifil newydd?

Os cyhoeddir Gorchymyn Rhannu Pensiwn yn erbyn eich pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac os ydych chi'n marw cyn eich partner newydd, bydd unrhyw bensiwn goroeswr a gaiff ei dalu i ŵr newydd, gwraig, partner sifil neu bartner cymwys sy'n cyd-fyw yn cael ei leihau.

Beth sy'n digwydd i gredyd pensiwn eich cyn bartner?

Wedi i'ch Gorchymyn Rhannu Pensiwn neu Orchymyn Clustnodi gael ei brosesu, mae'n bosibl y dyfernir credyd pensiwn i'ch cyn bartner. Pensiwn a ddyfernir yn benodol iddynt hwy yw hwn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn unol â debyd eich pensiwn. Mae'n gyfan gwbl ar wahân i'r buddion sydd gennych yn weddill.

Fe all eich cyn-bartner drosglwyddo eu credyd pensiwn allan i gynllun pensiwn arall neu fe allant ddechrau tynnu'r pensiwn hwn unrhyw bryd ar ôl troi'n 55 oed, pan fydd yn daladwy am oes.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yr oed cynharaf y gall aelod credyd pensiwn dynnu eu pensiwn yn cynyddu o 55 oed i 57 oed o 6 Ebrill 2028.

Fe allent gael eu gwarchod rhag y cynnydd hwn os wnaethant ymuno â'r CPLIL yng Nghymru a Lloegr cyn 4 Tachwedd 2021. Fodd bynnag, dim ond pan fyddant yn tynnu eu pensiwn CPLIL y byddant yn cael eu gwarchod, os yw rheolau'r Cynllun yn caniatáu iddynt gymryd eu pensiwn cyn troi'n 57 oed.

Llywodraeth y DU sy'n gosod rheolau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid yw wedi ei gadarnhau eto os bydd yn caniatáu i aelodau, sy'n gymwys i gael eu gwarchod, gymryd eu pensiwn CPLIL cyn eu bod yn 57 mlwydd oed o 6 Ebrill 2028.

Pryd allwch chi ddisgwyl derbyn Gwerth sy'n Cyfateb i Arian Parod eich hawliau pensiwn?

Dylech ddisgwyl derbyn y gwerth sy'n cyfateb i arian parod o fewn 3 mis o ofyn a hynny. Weithiau mae'n cymryd cymaint â hynny gan fod angen i'ch cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gasglu gwybodaeth, er enghraifft gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi neu eich cyflogwr. Dim ond pan fo gennym ni'r holl wybodaeth hon y gallwn ni gyfrifo'r gwerth trosglwyddo.

Mae'n bosibl y bydd yna ffi am ddarparu'r gwerth sy'n cyfateb i arian parod i chi. Bydd Cronfa Bensiynau Clwyd yn cadarnhau hyn gyda chi cyn y byddwn yn cyfrifo unrhyw beth.

Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd:

Ffôn: 01352 702875

E-bost: pensiynau@siryfflint.gov.uk

Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Gwefan: <https://cronfabensiynaclwyd.org.uk>

Ymwadiad

Nid yw Cronfa Bensiynau Clwyd yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y daflen ffeithiau hon, efallai y byddwch yn dymuno cael cyngor ariannol annibynnol i wneud penderfyniad cytbwys.

Efallai y gall y cyrff hyn eich helpu:

Unbiased:

<https://unbiased.co.uk> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Helpwr Arian:

<https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser?source=mas>



cronfabensiynaclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.